# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 21 Tachwedd 2024

Amser: 09.31 - 11.49

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn: http://senedd.tv/cy/14156

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Buffy Williams AS (Cadeirydd)<br>Cefin Campbell AS<br>Gareth Davies AS<br>Vaughan Gething AS<br>Tom Giffard AS |
| Tystion: | Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru<br>Rachel Thomas, Comisiynydd Plant Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Tom Lewis-White (Ail Glerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.2 Diolchodd y Cadeirydd i Hefin David AS am ei amser a'i gyfraniadau i'r Pwyllgor. Roedd hi'n edrych ymlaen at groesawu Carolyn i'r Pwyllgor. Roedd Carolyn wedi anfon ei hymddiheuriadau am heddiw, ac nid oedd eilydd.

1.3 Nododd y Cadeirydd fod angen i Tom Giffard AS a Vaughan Gething AS adael y cyfarfod yn gynnar.

## 2 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2023-2024

2.1 Bu’r Pwyllgor yn craffu ar waith y Comisiynydd yn ei Hadroddiad Blynyddol.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Nodwyd y papurau.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn a’r cyfarfodydd cyfan ar 28 Tachwedd a 4 Rhagfyr.

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2023-2024 - trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywodd yn ystod y sesiwn flaenorol.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor i drefnu amser ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol i drafod ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Blynyddol y Comisiynwyr.

## 6 Plant a phobl ifanc ar yr ymylon – trafod yr adroddiad drafft

6.1 Yn dilyn y drafodaeth yr wythnos diwethaf, trafododd yr Aelodau newidiadau i'r adroddiad drafft, a chytunodd arnynt. Byddai'r newidiadau terfynol a'r gymeradwyaeth yn cael eu cytuno'n electronig.